**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-676
Ein cyf/Our ref:FM -/00024/16

William Powell AM
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

27 Ionawr 2016

Annwyl William Powell,

**Sefydlu Pencampwr yr Iaith Gymraeg yn ein Cymunedau yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 12 Ionawr ynglŷn â deiseb P-04-676 ar gyfer sefydlu hyrwyddwr iaith Gymraeg yn ein cymunedau yng Nghymru.

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y mater cyn i'r pwyllgor ystyried y ddeiseb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg ar draws cymunedau Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys y Mentrau Iaith, Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Urdd Gobaith Cymru a'r rhwydwaith o Bapurau Bro. Amcangyfrifir bod dros 3,000 o unigolion yn gwirfoddoli yn rheolaidd yng ngweithgareddau ein partneriaid grant er mwyn cefnogi a chryfhau y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

Mae'r Mentrau Iaith ac Urdd Gobaith Cymru yn enghraifft o sut mae cyrff yr ydym yn eu cyllido yn ymgymryd â dyletswyddau y nodwyd yn y ddeiseb o ran gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Maent hefyd yn gweithio yn strategol gyda Awdurdodau Lleol gyda'r nod o sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag credaf bod sgôp ar gyfer cynghorau cymuned a thref ystyried penodi pencampwr yr iaith Gymraeg o fewn eu strwythurau. Gallai dyletswyddau'r swyddogion gwirfoddol hyn gynnwys cyfrifoldeb dros sicrhau cynllunio ar gyfer parhad yr iaith Gymraeg a bod yr iaith yn cael ei phrif ffrydio ymhob agwedd o'u maes gwaith.

Yn gywir,

**CARWYN JONES**